



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Cael yr help sydd ei angen arnoch gan Wasanaethau Cymdeithasol

**Canllaw i Ddeddf Gwasanaethau
Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

**Llais ac eiriolwr annibynnol
ar gyfer pobl hŷn ar draws**

Sut i gysylltu â Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Ffôn:

03442 640670

Ebost:

gofyn@olderpeoplewales.com

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Cardiff
CF10 5FL

Ewch i **www.olderpeoplewales.com** am fwy
o wybodaeth am waith y Comisiynydd, neu
dilynwch y Comisiynydd ar Drydar:

[@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

Cyflwyniad i'r Ddeddf

Mae [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) yn un o gyfreithiau Cymru. Ei nod yw sicrhau bod y gofal a'r cymorth rydych yn eu cael yn diwallu eich anghenion personol chi, gan eich helpu i fyw'r bywyd a ddewiswch ac i aros yn annibynnol yn hirach. Daeth y Ddeddf i rym yn 2016 ac mae wedi newid y ffordd mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ledled Cymru gyfan.

Nod y Ddeddf yw creu dull gweithredu cenedlaethol a fydd yn cael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol i hyrwyddo llesiant ac i amddiffyn pobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Am y tro cyntaf, mae'r Ddeddf yn sicrhau bod gofalwyr yn cael eu trin yn yr un ffordd â'r rheini sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae ganddynt hefyd hawl i gymorth os gwelir bod angen cymorth arnynt yn dilyn asesiad. Bellach, does dim trothwy o ran oriau gofalu i ofalwr gael asesiad.

Dan y Deddf, rhaid i wasanaethau cymdeithasol ganolbwyntio **ar yr hyn sy'n bwysig i chi**. Mae'r dull hwn yn ymwneud â dod o hyd i'r atebion cywir i chi, drwy weithio **gyda chi**. Mae'n rhoi mwy o lais i chi a'ch teulu o ran sut y byddwch chi'n cael gwasanaethau gofal a chymorth (neu wasanaethau cymorth os ydych chi'n ofalwr).

Dyma brif egwyddorion y Ddeddf:

- Rhoi llais a rheolaeth i chi
- Canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar
- Hybu eich llesiant
- Gweithio gyda'n gilydd (Cyd-gynhyrchu)

Beth allwch chi ei ddisgwyl o'r Ddeddf?

- Mae gan bawb yng Nghymru yr **hawl i lesiant**. Mae'n rhaid i'ch awdurdod lleol wneud ei orau i'ch cynorthwyo chi (a'ch gofalwr) i wella eich llesiant.
Mae 'llesiant' yn golygu bod pobl yn:
 - Hapus yn gorfforol, meddyliol ac emosiynol
 - Gallu mwynhau eu hawliau
 - Cael mynediad at addysg, hyfforddiant, chwaraeon a chyfle i chwarae
 - Cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod
 - Gallu cynnal perthynas gadarnhaol â theulu a ffrindiau
 - Meddu ar fywyd cymdeithasol a digon o arian i fyw bywyd iach
 - Meddu ar gartref da
 - Rhan o'r gymuned
- Rhaid i'ch awdurdod lleol sicrhau bod yna **wybodaeth, cyngor a chymorth o fewn cyrraedd hawdd** am wasanaethau gofal a chymorth sydd ar gael i bawb. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr hefyd. Rhaid i bob awdurdod lleol fod â Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth sydd ar gael mewn sawl ffordd (e.e. ar-lein, ffôn, wyneb yn wyneb)
- Mae gennych yr hawl i gael **rheolaeth** dros pa gymorth

sydd ei angen arnoch a **gwneud penderfyniadau am eich gofal a'ch cymorth fel partner cyfartal**. Rhaid i'ch awdurdod lleol ragdybio mai chi yw'r un gorau i farnu eich llesiant eich hun ac i wybod beth sydd orau i chi.

- Mae gennych hawl i gymryd rhan mewn trafodaethau am eich gofal a'ch cymorth. Rhaid i'ch awdurdod lleol gael gwybod am **eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau** a bod yn barod i wrando ar y rhain. Rhaid iddyn nhw feddwl a ydych chi angen **eiriolwr proffesiynol annibynnol** i'ch galluogi i gymryd rhan lawn ym mhrosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygu a diogelu. Mae gennych hawl i eiriolwr proffesiynol annibynnol a ddarperir yn rhad ac am ddim os oes gennych anawsterau penodol wrth fynegi eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau.
- Bydd y gwasanaethau'n canolbwyntio ar wneud yn siŵr eich bod yn cael y **cymorth priodol ar yr adeg briodol**. Mae gennych hawl i gael asesiad anghenion os yw'n ymddangos y gallech chi fod angen gwasanaethau gofal a chymorth (neu angen am wasanaethau cymorth os ydych chi'n ofalwr). Wrth gynnal asesiad o anghenion, rhaid i'ch awdurdod lleol asesu beth yr hoffech ei gyflawni o ddydd i ddydd - y canlyniadau yr hoffech eu gweld. Yna, mae'n rhaid iddyn nhw asesu a fyddai gwybodaeth, cyngor a chymorth (IAA), gwasanaethau ataliol neu wasanaethau gofal a chymorth yn eich helpu i gyflawni eich canlyniadau. Rhaid i'ch awdurdod lleol asesu hefyd a allai pethau ar wahân i gymorth gan yr awdurdod lleol eich helpu chi i gyflawni'r canlyniadau rydych am eu cael.

- O dan y Ddeddf, mae **Meini Prawf Cymhwysedd Cenedlaethol** a fydd yn cael eu defnyddio gan bob awdurdod lleol. Os ydych yn bodloni'r meini prawf, mae gennych hawl i ofal a chymorth a hawl i **Gynllun Gofal a Chymorth** (neu Gynllun Cymorth os ydych chi'n ofalwr). Mae gennych yr hawl i fod yn rhan o lunio eich Cynllun Gofal a Chymorth (neu Gynllun Cymorth).
- Efallai y bydd gofyn i chi **dalw am eich gofal a'ch cymorth** (neu eich cymorth os ydych chi'n ofalwr). Mae gennych hawl i gael **asesiad ariannol** i benderfynu faint y gallwch chi fforddio ei dalu (mae uchafswm tâl wythnosol ar gyfer gofal gartref ond nid yw hwn yn berthnasol i ofal preswyl). O dan y Ddeddf, mae asesuadau ariannol yn amodol ar yr un rheolau ar draws Cymru.
- Mae gennych hawl i gael **taliad uniongyrchol** os hoffech chi drefnu a thalu am eich gwasanaethau gofal a chymorth eich hunan (neu wasanaethau cymorth os ydych chi'n ofalwr) yn hytrach na'u derbyn yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.
- Mae pwerau i **amddiffyn pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod** wedi cael eu cryfhau. O dan y Ddeddf, mae rhywun yn cael ei ystyried yn 'oedolyn mewn perygl' os oes prawf fod yr unigolyn yn profi camdriniaeth neu esgeulustod (neu mewn perygl o brofi hyn) ac nad oes modd iddo/iddi amddiffyn ei hun a bod ganddo/ganddi anghenion gofal a chymorth (nid yw o bwys a yw'r awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hyn ai peidio ar hyn o bryd). Os yw awdurdod lleol yn amau bod oedolyn mewn perygl, mae'n rhaid iddo ymchwilio i'r mater er

mwyn penderfynu pa gamau y dylid eu cymryd.

Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Canllawiau yw Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, sy'n nodi sut y dylid trin pobl hŷn ar draws agweddau allweddol ar eu bywydau. Mae pum thema i'r Egwyddorion:

- annibyniaeth
- cyfranogiad
- gofal
- hunangyflawniad
- urddas

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi galw am i'r ddeddf gynnal Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn er mwyn sicrhau bod hawliau pob person hŷn yng Nghymru yn cael eu parchu - gellir defnyddio'r Egwyddorion i gynnal eich hawl i 'lesiant'.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae'n rhaid i awdurdod lleol roi 'ystyriaeth ddyledus' i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Mae gennych hawl i ddisgwyl bod Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn yn cael 'ystyriaeth ddyledus' pan fydd penderfyniadau am eich gofal a'ch cymorth (neu gymorth os ydych yn ofalwr) yn cael eu gwneud.

Am mwy wybodaeth am yr Egwyddorion, gallwch ymweld a'r

wefan hwn: <http://www.olderpeoplewales.com/wl/about/un-principles.aspx>

Beth allwch chi ei wneud os na chewch chi'r cymorth rydych chi ei angen?

Gallwch ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r awdurdod lleol os nad ydych yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd gan adran gwasanaethau cymdeithasol eich awdurdod lleol. Gallwch ddefnyddio'r drefn gwyno i gwyno am:

- unrhyw wasanaeth cymdeithasol y mae'r awdurdod lleol yn ei ddarparu, neu wedi gwrthod ei ddarparu
- gwasanaeth cymdeithasol a ddarparwyd gan sefydliad arall ar gyfer yr awdurdod lleol

Gallwch hefyd gwyno am aelod o staff sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol neu am fethiant i roi gwybod i chi am benderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

Dylech sicrhau bod yr awdurdod lleol yn ymwybodol o'ch amgylchiadau cyn i chi gwyno. Gallwch wneud hyn drwy gysylltu â'r adran gwasanaethau cymdeithasol.

Os yw'r awdurdod lleol yn gwybod y gall fod angen cymorth arnoch chi i gwyno, rhaid iddo benderfynu pa gymorth, os o gwbl, y bydd yn ei ddarparu. Dylai'r awdurdod lleol ddweud wrthyich am y cyngor a'r cymorth sydd ar gael, a all gynnwys gwasanaethau eiriolaeth. Os nad ydych yn fodlon ar y penderfyniad ynghylch cymorth, gallwch gwyno am y penderfyniad hwnnw hefyd.

Cysylltiadau Defnyddiol

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Adeiladau Cambrian

Sgwâr Mount Stuart

Caerdydd

CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

www.olderpeoplewales.com

Gofal Cymdeithasol Cymru - Hyb Dysgu

Tŷ South Gate

Wood Street

Caerdydd

CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444

<https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/hafan>

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 0604 400

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/act/?lang=cy>

Arolygiaeth Gofal Cymru

Swyddfa Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhydycar

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 7900 126

<https://careinspectorate.wales/>

Age Cymru

Llawr Gwaelod

Mariners House

Trident Court

Heol East Moors

Caerdydd

CF24 5TD

Ffôn: 08000 223 444

<https://www.ageuk.org.uk/cymru/>

Gofal a Thrwsio Cymru

Llawr 1AF

Mariners House

Trident Court

Heol East Moors

Caerdydd

CF24 5TD

Ffôn: 0292 0107 580

<http://www.careandrepair.org.uk/cy/>

Gofalwyr Cymru

Llawr Gwaelod, Uned 5

Ynys Bridge Court

Caerdydd

CF15 9SS

Ffôn: 029 2081 1370

www.carersuk.org/wales

Cyngor ar Bopeth - Cwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol

Ffôn: 0800 702 2020